



Cyngor Bro Morgannwg  
Ymgynghoriad ar ddogfen arfaethedig y  
Strategaeth Hygyrchedd 2021-24  
Gweledigaeth Plant a Phobl Ifanc





## Beth yw Strategaeth Hygyrchedd i ysgolion?

Mae strategaeth hygyrchedd yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gwneud gwelliannau sy'n helpu pobl ifanc ag anableddau yn ein hysgolion dros gyfnod penodol a hefyd yn helpu ysgolion i fodloni anghenion y bobl ifanc hynny.

## Pam rydym yn gwneud hyn ar gyfer ysgolion?

Bydd strategaeth yn ein helpu i osod targedau i wneud pethau'n well ac i alluogi disgyblion ag anableddau i gael cyfleoedd addysg ym mhob ysgol. Mae'n ofyniad yn ôl y gyfraith - mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn dweud bod **rhaidd** i ni wneud hyn.

Bydd strategaeth hygyrchedd yn dangos sut y gallwn wneud y pethau hyn yn well drwy:

- Helpu disgyblion anabl i gael yr hyn sydd ei angen arnynt i ddysgu pob pwnc (cwrwclwm yr ysgolion)
- Gwellu sut y gall disgyblion anabl symud o gwmpas yr ysgolion er mwyn helpu gyda'u haddysg
- Gwellu'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhoi i ddisgyblion, rhieni a gofalwyr disgyblion anabl

## Sut rhoesom hyn at ei gilydd?

Mae'r strategaeth hygyrchedd ddrafft hon wedi'i hysgrifennu ar ôl llawer o sgrysiâu am yr hyn y dylai'r strategaeth ei gynnwys. Gwnaethom siarad â phobl sy'n gweithio gyda phobl anabl a phobl sy'n gweithio mewn ysgolion. Rydym bellach am siarad â phobl ifanc sydd wedi mynychu'r ysgol a phlant sydd eisoes yn yr ysgol ym Mro Morgannwg. Mae hyn o bwys er mwyn cael gwybod ganddynt am yr hyn sy'n bwysig o ran helpu disgyblion anabl i gael y gorau o'u haddysg.

Rydym am glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud ac yn credu ei bod yn bwysig eich bod yn ein helpu gyda hyn.

Byddwn yn:

- Gwrando ar rieni a disgyblion
- Gweithio gydag ysgolion a theuluoedd
- Rhoi anghenion y plentyn yn gyntaf; yn ogystal â bod yn
- Onest ac yn
- Barod i wneud newidiadau pryd bynnag y gallwn, os bydd yn gwneud pethau'n well.

Rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth am bob un o'n hysgolion i'n helpu i benderfynu ym mha le y gallai rhai o'r anawsterau mwyaf fod.



# Beth bydd Strategaeth Hygyrchedd Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer ysgolion yn ei wneud?

Mae'r strategaeth yn gosod y nodau canlynol i'w cyflawni erbyn 2024:

## Adeiladau Ysgolion:

- Byddwn yn sicrhau bod ein hysgolion a'n hystafelloedd dosbarth yn haws eu defnyddio i ddisgyblion anabl.



## Gweithio gyda'n gilydd:

- Byddwn yn gweithio gydag athrawon i wneud eu hysgolion yn well i ddisgyblion anabl
- Byddwn yn sicrhau y caiff y cynlluniau eu rhannu â disgyblion a theuluoedd.
- Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau

bod gwybodaeth ar gael i ddisgyblion ac i feddwl am ffyrdd y maen nhw'n rhannu'r wybodaeth hon

## Cyfathrebu gwell:

- Byddwn yn rhannu gwybodaeth yn ddiogel i helpu ysgolion i wybod pwy sydd ag anabledd ac sydd angen help
- Byddwn yn siarad â'r bobl iawn yn yr ysgol fel ein bod yn gwybod pa gymorth mae ei angen



## Sut mae pethau'n mynd? Adolygu cynnydd:

- Byddwn yn cofnodi'r hyn a wnaethom yn well ac yn ddiweddarau ein strategaeth bob tair blynedd





## Sut gallwch chi ddweud wrthym beth yw eich barn chi?

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **9 Tachwedd 2020 i 15 Ionawr 2021**.

Mae eich barn yn bwysig ac mae nifer o ffyrdd y gallwch ei rhoi i ni:

- Trwy gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein, trwy fynd i'r dudalen we isod

<https://test-www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Accessibility-Strategy-2021-24-Consultation.aspx>

neu

- Drwy gwblhau'r ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori a'i hanfon i:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ  
Ymgynghoriad (Strategaeth Hygyrchedd 2021-24)  
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid  
Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig,  
Heol Holltwn  
Y Barri CF63 4RU

